

## Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Lleucu Swyn Williams (Cefn Berain) sydd wedi torri ei braich. Brysya i wella Lleucu! Hefyd, parhawn i gofio am Bessie Roberts (Llanefydd) sydd wedi symud i'r Inffirmari erbyn hyn. Mae Morfudd Roberts (Llanefydd) yn gobeithio y bydd wedi cael dod adref erbyn y penwythnos hwn, fel ag y cafodd Hywel Wyn Davies (Cefn Berain) a Menna Owen (Cefn Meiriadog) yn ystod yr wythnos. Mae Bob Davies (Llanfair) yn parhau yn Ysbyty Llandudno, ac mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn hefyd ac yn wynebu amrywiol driniaethau. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Parhawn i gofio hefyd am y teuluoedd sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.
- Dymuniadau gorau i holl blant a ieuenctid y Fro fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala yr wythnos hon!

## I ddod

- **DARLITH: 'O LANSANNAN I LYNLLEIFIAD: BYWYDAU HYNOD BRODYR ENWOCAF BRO ALED'** yn Festri Llansannan nos Iau, Mehefin 5ed am 7.30 gyda Rhodri Glyn yn darlithio. Croeso cynnes i bawb!
- **DIWRNOD DYNION** yn y Bala ar Mehefin 7fed. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 8fed yng Nghapel Pisgah, Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2013-14. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.
- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – i'r merched y tro hwn gyda Vinny Commons yn cyflwyno 'The Potter and the Clay' yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mehefin 9fed am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 13eg-14eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565.
- **YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHAU** ar Mehefin 30ain–Gorffennaf 2il yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EL / (01978) 846151 / [geraint.w.jones@btinternet.com](mailto:geraint.w.jones@btinternet.com) am fwy o wybodaeth.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25<sup>ain</sup> Mai 2014

## Darlleniad y Dydd

Pregethwr 10:16-20

(BCND tud.612 / BCN: tud.559)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd ar ôl wythnos arall hyfryd o braf – ac ambell i gawod. Mae'r wlad yn derbyn glaw a heulwen y dyddiau hir. Yr adeg yma o'r flwyddyn mae'n braf gallu agor y ffenestr a gwrando ar gôr adar y wig yn canu yn y bore bach. Byddant yn canu nerth eu pennau ac mae cael eu clywed yn codi calon. Yna, wedi'r canu, daw prysurdeb y dydd i'r adar bach fel i'r rhan fwyaf ohonom. Wrth wrando arnynt dwi'n cael f'atgoffa'n aml am yr emyn cyfarwydd: 'Nef a daear, tir a môr sydd yn datgan mawl yr Iôr...' ac yna'r cwestiwn treiddgar – 'fynni dithau, f'enaid, fod yn y canol heb roi clod?' (CFF116) Byddwn yn esgeulus yn aml o ddechrau'r diwrnod yng nghwmni Duw, mewn gweddi a moliant.

Ond daw cyfle i ni eto, trwy ras Duw, i godi moliant i'r Arglwydd hefo'n gilydd a chanu'n uchel am ei gariad a'i ofal. Mae'r Beibl yn dweud fod Duw yn hoffi clywed moliant iddo yn codi o addoliad ei Eglwys – rhywbeth tebyg i'r hyfrydwch a gawn ni wrth wrando côr yr adar efallai. Felly tybed beth a glywa Duw wrth wrando ar ei bobl ym Mro Aled? "Dewch, bawb drwy'r byd i gyd, canwch yn uchel i'r ARGLWYDD! Codwch eich llais yn llawen, a chanu mawl iddo!" (Salm 98)

Ydach chi wedi meddwl erioed am ddylanwad y Beibl ar ein hiaith pob dydd? Rhyfedd ydi meddwl sut y mae dywediadau o'r Beibl wedi treiddio i'n ffordd o siarad a dyma i chi enghraifft heddiw o lyfr y Pregethwr. Pan fyddwn wedi clywed cyfrinach ac yn ei rannu fe fyddwn yn clywed y cwestiwn "Sut wyt ti'n gwybod?" ac yna atebwn heb feddwl: "Deryn bach ddwedodd wrtha i!" Daw'r ymadrodd cyfarwydd yma o adnod 20 lle mae rhybudd i ni beidio â dweud pethau cas am y brenin rhag ofn i dderyn bach rannu'r brad hefo pobl eraill. Rhyw fath o MI6 neu GHQ cynnar!

Ond os dylem ddilyn esiampl yr adar o ran ein moliant, dylem osgoi bod yn debyg i'r deryn bach sydd yn hel clecs. Mae rhannu clecs yn gallu bod yn niweidiol i eraill a dylem geisio osgoi syrthio i'r fagl o ddilyn pobl eraill yn hyn o beth. Dyma eiriau doeth i ni: "Mae'r un sy'n hel clecs yn bradychu cyfrinach ond mae ffrind go iawn yn cadw cyfrinach." (Diarhebion 11: 13) A dyma rybudd arall: "Mae person croes yn achosi cynnen, a'r un sy'n hel clecs yn chwalu ffrindiau." (16: 28) Defnyddio sgwrs i ddweud da a wnawn felly, a'n tafod a'n calon i ganu mawl i'r Arglwydd heddiw.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Timotheus 2: 1-13 (BCND tud.234 / BCN: tud.214)

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Robin Fferwd, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul ym Mheniel hefyd am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Iau \* SYLWCH AR Y NEWID DIWRNOD \* Bydd y Clwb Cinio yng Nghefn Berain yn cyfarfod yr wythnos hon (*yn hytrach nag ar ddydd Gwener cyntaf Mehefin*).
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Apêl Haiti

Bob pedair blynedd mae Undeb yr Annibynwyr yn cynnal apêl arbennig tuag at waith Cymorth Cristnogol mewn un wlad benodol. Y tro hwn, **APÊL HAITI** sy'n cael ei chynnal, a hynny er budd pedwar prosiect i helpu gwlad dlawd a chwalwyd gan ddaeargryn anferth yn 2010. Roedd Haiti eisoes y wlad dlotaf yn hemisffer y gorllewin pan gafodd ei tharo. Lladdwyd 220,000 o bobl, a gadawyd 1.5 miliwn yn ddirgaref a miliynau eraill heb eu bywiolaethau.

Os oes unrhyw un arall yn dymuno cyfrannu tuag at yr apêl arbennig yma, mae croeso i chi wneud hynny (mae amlenni pwrpasol ar gael gan Mair). Ein bwriad yw anfon y casgliad lleol i'r Apêl yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Mehefin.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – 📧 [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.